

## **Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol: Gwella'r Ddarpariaeth Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018-19**

Ystyriwyd adroddiad gan Gabinet y Cyngor ar 19 Ebrill 2018 a restrodd argymhellion yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn ar gynigion parthed darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol 2018-19.

Cytunodd y Cabinet i'r Cyngor symud ymlaen i'r cam nesaf a chyhoeddi Hysbysiadau Statudol cyfreithiol i:

- Gynyddu capasiti Ysgol Tŷ Gwyn i hyd at 198 o leoedd
- Ehangu ystod oed Greenhill o 11-16 i 11-19 ac i gynyddu capasiti'r ysgol i hyd at 64 o lefydd.
- Newid y math o angen addysgol arbennig a ddarperir gan Ysgol Meadowbank
- Dirwyn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Allensbank i ben yn raddol, gan gau'r dosbarth fis Gorffennaf 2020, neu pan fydd yr holl ddisgyblion presennol wedi cwblhau eu cyfnod cynradd os yw hynny'n gynt; agor dosbarth ymyrraeth gynnar 8 lle i blant ag anghenion lleferydd ac iaith
- agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch yn cynnig hyd at 10 lle i ddechrau, ond gyda modd cynyddu i 20 yn y dyfodol, wrth i'r galw gynyddu.
- Cynyddu niferoedd y llefydd yn y CAA yn Ysgol Glantaf i 30 lle.

Mae'r hysbysiad yn caniatáu cyfnod o 28 o ddiwrnodau ers y dyddiad cyhoeddi ar gyfer gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i:

Y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.  
Cyngor Dinas Caerdydd,  
Neuadd y Sir,  
Glanfa'r Iwerydd,  
Caerdydd,  
CF10 4UW.

Hefyd gellir anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:  
[ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk).

Sylwer fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu